**COFNODION CYFARFOD**

**Dyddiad:** 28 Mai 2002
**Amser:** 9 a.m.
**Lleoliad:** Ystafell A3.13

**Yn bresennol:** John Marek, Dirprwy Lywydd (Cadeirydd)
Carwyn Jones, y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad
Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru
Jonathan Morgan, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr
Kirsty Williams, Rheolwr Busnes y Democratiaid Rhyddfrydol

Paul Silk, Clerc y Cynulliad
David Lambert, Cynghorydd Cyfreithiol Swyddfa'r Llywydd
Marie Knox (eitem 6 ar yr agenda)
Andrew George, Clerc y Pwyllgor Busnes
Marion Stapleton, Uned Fusnes y Cynulliad
Alun Jenkins, Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol (eitem 4 ar yr agenda)
Marc Wyn Jones, Ysgrifenyddiaeth y Siambr/Ysgrifennydd Preifat y Dirprwy Lywydd

## 1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

1.1 Dywedodd Jonathan Morgan y byddai'n absennol o gyfarfod y Pwyllgor Busnes ar 11 Mehefin am y byddai'n mynychu ymweliad y Frenhines â Bangor.

## 2. Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol

### (i) BC160-02 (Terfynol) dydd Mawrth 14 Mai 2002

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf derfynol. Gan nad oedd unrhyw sylwadau byddent yn cael eu cyfieithu yn barod i'w cyhoeddi.
**Camau gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

### (ii) BC174-02 (Drafft) dydd Mawrth 21 Mai 2002

2.2 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf ddrafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau byddent yn cael eu cyfieithu yn barod i'w cyhoeddi.
**Camau gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

## 3. Materion yn codi (BC160-02 dydd Mawrth 14 Mai 2002)

3.1 Cylchredwyd papur i'r Pwyllgor yn rhoi manylion canlyniadau'r holiadur ar newidiadau i amserau Cyfarfodydd Llawn. Dywedodd y Dirprwy Lywydd fod dros 40 o aelodau'r Cynulliad wedi ymateb a bod dau o'r tri dewis wedi cael y gefnogaeth fwyaf. Yr oedd rhai Aelodau o blaid symud Cyfarfod Llawn dydd Iau i ddydd Mercher rhwng 2.-5.30pm, tra'r oedd eraill wedi dymuno parhau i gyfarfod ar ddydd Iau rhwng

9.05am a 12.35pm.  Dywedodd y gallai penderfyniad terfynol gael ei wneud gan yr Aelodau yn y Cyfarfod Llawn ar gynnig i symud i ddydd Mercher.  Cytunodd y Pwyllgor ar yr awgrym hwn.
**Camau Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr i baratoi cynnig.**

**4. Is-ddeddfwriaeth**
**(a) Gorchmynion i'w hystyried**

- Rheoliadau Cymwysterau Athrawon Addysg Bellach (Cymru) 2002 (BC176-02) *Y Weithdrefn a Argymhellir: y Weithdrefn Garlam*
- Gorchymyn Addysg (Cyrff sy'n cael eu Cydnabod) (Cymru) 2002 (BC177-02) *Y Weithdrefn a Argymhellir: y Weithdrefn Garlam*
- Gorchymyn Addysg (Cyrff sy'n cael eu Rhestru) (Cymru) 2002 (BC178-02) *Y Weithdrefn a Argymhellir: y Weithdrefn Garlam*

4.1 Ystyriodd y Pwyllgor Busnes bapurau BC176-02 i BC178-02 a oedd yn rhoi cyngor ar ymdrin â'r gorchmynion hyn a chytunwyd ar y gweithdrefnau a argymhellwyd.
**Dyfarnodd y Llywydd wedyn nad oedd angen cyfeirio'r Gorchmynion hyn at bwyllgor pwnc.**

**(b) Gorchmynion a wnaed o dan y Weithdrefn Weithredol**

**5. Cyngor i'r Cynulliad ar weithdrefnau**

BC179-02

5.1 Ystyriodd y Pwyllgor y papur hwn a oedd yn awgrymu gweithdrefn a fyddai'n galluogi Gweinidog i gynnig y dylid trafod cynigion cysylltiedig gyda'i gilydd. Dywedodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad y byddai'n hysbysu'r Pwyllgor am unrhyw gynigion o'r fath wrth gyflwyno'r Datganiad Busnes Drafft.  Dywedodd y Dirprwy Lywydd na fyddai'r Llywydd yn caniatáu i'r cynigion gael eu trafod gyda'i gilydd pe bai unrhyw anghydfod yn y Siambr.  Dywedodd y byddai'n gwrtais hysbysu'r Gweinidog ymlaen llaw pe bai'n debygol y byddai anghydfod gan y byddai hyn yn caniatáu i'r Gweinidog ailystyried y cynnig.

BC180-02

5.2 Dywedodd y Dirprwy Lywydd fod y papur hwn yn nodi cynnig ar gyfer newid y weithdrefn ar gyfer Cwestiynau'r Prif Weinidog yn deillio o'r argymhellion yn yr Adolygiad o Weithdrefnau'r Cynulliad.  Dywedodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad fod Llywodraeth y Cynulliad wedi gofyn am gyngor ar y papur a bod y Pwyllgor wedi cytuno i ohirio penderfyniad tan y cyfarfod ar 11 Mehefin.

**6.  Pwyllgorau**

**7.  Busnes Arfaethedig**

(i) Busnes yr wythnos hon

7.1 Ystyriodd y Pwyllgor bapur BC181-02 a oedd yn rhoi manylion busnes yr oedd y Cynulliad wedi cytuno arno ar gyfer yr wythnos.

7.2 Dywedodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad fod y datganiad ar y Strategaeth Gofal Lliniarol a oedd wedi'i amserlennu ar gyfer dydd Iau 28 Mai wedi cael ei ohirio. Yr oedd datganiad gan y Gweinidog dros Addysg ar Brosiect Dysgu 14-19 wedi'i amserlennu yn ei le. Dywedodd fod y Cynnig i fabwysiadu Cynllun Cydraddoldeb Hiliol a oedd wedi'i amserlennu ar gyfer dydd Iau 30 Mai wedi'i ohirio tan ddydd Iau 27 Mehefin. Yr oedd datganiad ar y Cynllun Cydraddoldeb Hiliol wedi'i amserlennu yn ei le.

7.3 Cyflwynodd Jonathan Morgan sylwadau ar y nifer o ddatganiadau sy'n cael eu gwneud gan y Gweinidogion. Cyfeiriodd at yr argymhellion yn yr Adolygiad o Weithdrefnau'r Cynulliad y dylid defnyddio datganiadau i hysbysu'r Cynulliad am ddatblygiadau polisi neu weithredol newydd. Cytunodd Jocelyn Davies â hyn a dweud ei bod yn ymddangos bod datganiadau'n cael eu gwneud os oedd y busnes a oedd wedi'i amserlennu yn brin. Nododd Jonathan Morgan fod dadl ar y Cynllun Cydraddoldeb Hiliol wedi'i hamserlennu ar gyfer dydd Iau 27 Mehefin a chwestiynu'r angen am ddatganiad llafar gan y Gweinidog ar 30 Mai.

<u>(ii) Datganiad Busnes Drafft</u>

7.4 Nododd y Pwyllgor ddatganiad arfaethedig y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad ynghylch trefniadaeth busnes y Cynulliad ar gyfer yr wythnosau yn dechrau dydd Iau 11 Mehefin, dydd Mawrth 18 Mehefin, a dydd Mawrth 25 Mehefin.

7.5 Dywedodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad fod dau newid i'r busnes a amlinellwyd yn y Datganiad Busnes Drafft. Yr oedd y cynnig i gymeradwyo Cyfarwyddiadau Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid 2002, a oedd wedi'i amserlennu ar gyfer dydd Iau 11 Mehefin, wedi'i ohirio tan 25 Mehefin a byddai'r cynnig i symud Cyfarfodydd Llawn o fore dydd Iau i brynhawn dydd Mercher yn cael slot yn y Cyfarfod Llawn ddydd Iau 13 Mehefin.

7.6 Gofynnodd Jonathan Morgan i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad ynghylch y ffordd y mae dadleuon Pleidiau Lleiafrifol yn cael eu dyrannu. Dywedodd y byddai'n ddefnyddiol i'r Pleidiau pe gellid darparu amserlen er mwyn i waith paratoi addas gael ei wneud. Dywedodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad y byddai'n darparu'r wybodaeth berthnasol.

## 8. <u>Materion a gyfeiriwyd o'r cyfarfod llawn</u>

## 9. <u>Diwygiadau i Reolau Sefydlog</u>

## <u>10. Dyfarniadau'r Llywydd</u>

## <u>11. Unrhyw fusnes arall</u>

11.1 Hysbysodd y Dirprwy Lywydd y Pwyllgor y byddai'r Pwyllgor Safonau yn edrych ar newid yn y Rheolau Sefydlog i egluro'r weithdrefn ar gyfer datganiadau o fuddiant yn nhrafodion y Cynulliad. Câi'r Pwyllgor ei hysbysu am unrhyw ddatblygiadau. Dywedodd Paul Silk y dylai'r Aelodau fod yn ymwybodol bod cyngor cyfreithiol wedi cadarnhau bod cymryd rhan yn nhrafodion y Cynulliad yn cynnwys pleidleisio.

**YSGRIFENYDDIAETH Y SIAMBR**